

Y SENEDD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 14.00 ar 18 TACHWEDD 2020, trwy Zoom.

Aelodau â phleidlais: Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor; Yr Athro Neil Glasser, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran Gwyddorau'r Ddaear a Bywyd) (o gofnod 17); Dr Anwen Jones, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol); Yr Athro Qiang Shen, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran Busnes a'r Gwyddorau Ffisegol); Yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr); Dr Cathryn Charnell-White; Dr Hazel Davey; Mr Prysor Davies; Dr Sarah Davies; Yr Athro Iain Donnison (o gofnod 19); Dr Rebecca Edwards; Dr Gwion Evans (o gofnod 20); Dr Sarah Higgins; Dr Aloysius Igboekwu; Mr Penri James, Cadeirydd Cangen Prifysgol Aberystwyth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (o gofnod 19); Dr Ffion Jones; Mr Morgan Lewis, Llywydd UMCA; Mr Chris Loftus; Dr Alex Mangold; Dr Louise Marshall; Yr Athro Robert Meyrick (o gofnod 19.4); Mr John Morgan; Mr David Moyle; Mr Nathaniel Pidcock, Llywydd UMAber; Yr Athro Eleri Pryse; Yr Athro Phillipp Schofield; Ms Chloe Wilkinson-Silk, Swyddog Materion Academaidd UMAber; Dr Victoria Wright; a'r Athro Reyer Zwiggelaar, Pennaeth Ysgol y Graddedigion.

Aelodau heb bleidlais: Yr Athro Simon Cox; Dr Andrew Davies; Yr Athro Andrew Evans; Dr Thomas Jansen (o gofnod 17); Yr Athro Helen Roberts, Cyfarwyddwr Rhagoriaeth ac Effaith Ymchwil; Dr Anoush Simon; a'r Athro Andrew Thomas (o gofnod 20).

Yn gweinyddu: Mr Tim Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gwybodaeth; Mr Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Brifysgol; a Ms Emma Williams, Y Cofrestrydd Academaidd.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Yr Athro Simon Banham; Dr Guy Baron; Yr Athro Colin McInnes, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi); Dr Patrick Finney; a Dr Sarah Wydall.

13. MATERION A GODWYD GAN YR IS-GANGHELLOR

1. Cydymdeimlad

Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marw'r canlynol:

1. Yr Athro Peter Borsay, Athro Emeritws yn yr Adran Hanes a Hanes Cymru;
2. Yr Athro D Q Bowen, cyn-Gyfarwyddwr Athrofa Astudiaethau'r Ddaear; a
3. Michael Lowe, cyn-Ddarlithydd Astudiaethau Gwybodaeth.

14. GWRTHDARO BUDDIANNAU

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w trafod yn ystod y cyfarfod.

15. COFNODION Y CYFARFODYDD BLAENOROL

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 30 Medi 2020 (SEN2021-018).

PENDERFYNWYD

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir, yn amodol ar newid gwall teipio bach (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).

16. MATERION YN CODI O'R COFNODION

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Senedd, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (SEN2021-019).

NODWYD

Y diweddariadau a roddwyd yn y cofnodydd penderfyniadau.

17. GOHEBIAETH

Doedd dim gohebiaeth i'w gofnodi.

18. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (SEN2021-020).

NODWYD

1. Roedd tair prif adran i'r adroddiad: adroddiad am uchafbwyntiau; adroddiad cynllunio a chofrestrïadau myfyrwyr; ac adroddiad ynglŷn â chyfathrebiadau.
2. Rhwng 29 Hydref a 05 Tachwedd 2020, gwahoddwyd aelodau'r staff i lenwi ail arolwg barn byr ar-lein. O'i gymharu â'r arolwg barn blaenorol ym mis Mai, bu cynnydd o 24% yn nifer yr ymatebion. Dosbarthwyd crynodeb o'r canlyniadau i staff yn gynharach yn y dydd.
3. Er gwaethaf rhai canlyniadau calonogol, roedd yr arolwg yn pwysleisio'r heriau gwirioneddol a wynebai cydweithwyr academiaidd wrth i effaith y pandemig ymestyn am nifer o fisoedd. Cafodd yr aelodau eu hatgoffa hefyd nad oedd y Brifysgol yn disgwyl yr un lefel o gynnyrch ymchwil eleni, ac mai ar ddarparu cymaint o ddysgu wyneb-yn-wyneb yr oedd y pwyslais - rhywbeth nad oedd sefydliadau eraill yn gallu ei gynnig eleni.
4. Roedd Gweithrediaeth y Brifysgol nawr yn edrych am ddulliau ychwanegol o roi cefnogaeth ychwanegol i gydweithwyr. Oherwydd nifer y myfyrwyr, roedd y sefydliad yn gallu cynnig rhai adnoddau ychwanegol, ac roedd Penaethiaid Adrannau wedi'u gwahodd y diwrnod blaenorol i gyflwyno ceisiadau am staff ychwanegol i gynorthwyo gyda'r gwaith ychwanegol a oedd yn wynebu cydweithwyr.

19. ADRODDIAD O'R BWRDD ACADEMAIDD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd Kim Bradick (SEN2021-021).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r prif faterion a drafodwyd yn ystod cyfarfod y Bwrdd Academaidd ar 11 Tachwedd 2020. Trafodwyd yr adroddiad gan aelodau'r Senedd.

2. Arolwg yr ASA ar Wella Ansawdd 2021-22

O dan Fframwaith Asesu Ansawdd CCAUC, mae'n rhaid i sefydliadau gomisiynu arolwg allanol o sicrwydd ansawdd bob chwe blynedd o leiaf. Roedd y Brifysgol felly'n trafod dyddiadau posibl i gynnal arolwg yn ystod y Gwanwyn 2022, mewn ymgynghoriad ag Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (ASA) a'r Cyngor Cyllido. Byddai gweithgor yn cael ei sefydlu yn fuan yn 2021 i arwain y gwaith o ddatblygu'r dogfennau y byddai angen eu cyflwyno i'r ASA cyn ymweliad safle.

3. Covid-19: Amgylchiadau Arbennig a'r Drws Trugaredd

1. Yng ngwanwyn 2020 cytunodd y Senedd ar bolisi argyfwng 'dim anfantais' i sicrhau na fyddai myfyrwyr yn cael eu hanfanteisio gan y newidiadau i drefniadau dysgu ac asesu mewn ymateb i bandemig Covid-19.
2. Yng ngoleuni'r camau a gymerwyd dros yr haf i sicrhau bod y trefniadau dysgu ac asesu am 2020-21 yn adlewyrchu'r amgylchiadau cyfredol, daeth y Bwrdd Academaidd i'r casgliad nad oedd angen parhau â'r polisi 'dim anfantais' a oedd yn caniatáu canlyniadau ailsefyll heb eu capio.
3. Serch hynny, roedd y Bwrdd Academaidd wedi cynnig y dylai myfyrwyr barhau i allu gofyn am ystyriaeth yn unol â threfniadau 'Amgylchiadau Arbennig' heb orfod darparu tystiolaeth. Byddai prosesau gwneud cais am estyniad yn parhau yn y ffordd arferol, ond byddai gofynion ynglŷn â darparu tystiolaeth yn cael eu llacio yn y cyd-destun hwn hefyd.
4. Roedd y Bwrdd hefyd yn cynnig, yn achos myfyrwyr unigol a chanddynt 'Amgylchiadau Arbennig', y dylai'r rheolau sy'n llywodraethu trefn 'Drws Trugaredd' o 1 y cant gael eu hystyngiwr i 2 y cant er mwyn osgoi tanberfformio. Byddai hyn yn golygu bod unrhyw ganlyniadau o fewn 2.5 y cant i'r ffin yn cael eu hadolygu.
5. Mynegwyd pryder gan y myfyrwyr ymhlith aelodau'r Senedd y byddai gwrthod i fyfyrwyr a oedd wedi hawlio 'Amgylchiadau Arbennig' i ailsefyll modiwlau a basiwyd ganddynt eisoes yn rhoi'r myfyrwyr hynny dan anfantais gan na fyddent yn cael cyfle i ennill canlyniad a fyddai'n adlewyrchu eu perfformiad arferol.
6. Cafodd y cynigion a argymhellwyd gan y Bwrdd Academaidd eu trafod gan yr aelodau, a oedd yn cydnabod bod angen i'r Brifysgol gadw cydbwysedd rhwng cefnogi myfyrwyr a chynnal safonau academaidd (gan gynnwys ansawdd y dyfarniadau sy'n cael eu hachredu'n allanol). Pwysleisiwyd hefyd bwysigrwydd cadw elfen o hyblygrwydd rhag ofn y byddai angen cymryd camau lleddfu pellach yn nes ymlaen yn y flwyddyn academaidd.

PENDERFYNWYD

7. Cymeradwyo argymhelliad y Bwrdd Academaidd y dylai'r ddarpariaeth a sefydlwyd yn ystod yr haf 2020 i weithredu 'Drws Trugaredd' o 2 y cant gael ei barhau am 2020-21 (**GWEITHREDU: Y Dirprwy Gofrestrydd Kim Bradick**).

8. Y byddai'r canlyniadau ar ddiwedd cyfnod marcio semester 1 yn cael eu dadansoddi, a champau priodol yn cael eu hargymhell pe na fyddent yn dilyn y drefn arferol o'u cymharu â chanlyniadau mewn amgylchiadau arferol (**GWEITHREDU: Y Cofrestrydd Academaidd**).

4. Adroddiadau Arholwyr Allanol 2019-20

1. Cafodd crynodeb o'r prif faterion a godwyd yn adroddiadau'r Arholwyr Allanol am y sesiwn flaenorol ei gynnwys yn adroddiad y Bwrdd Academaidd. Roedd adroddiadau'r Arholwyr Allanol wedi'u hystyried yn fanwl gan Bwyllgorau Materion Academaidd y Cyfadrannau hefyd.
2. Yn gyffredinol, roedd yr arholwyr wedi cadarnhau bod y safonau'n gyson â rhai mewn prifysgolion eraill, bod meincnodau pwnc wedi eu cyflawni, a bod y Byrddau Arholi wedi cadw at reoliadau'r Brifysgol. Roedd yr arholwyr allanol hefyd wedi canmol ymroddiad staff academaidd a staff y Gofrestrfa, yn ogystal ag ymatebion yr adrannau i'r pandemig Covid-19 trwy ddarparu cefnogaeth academaidd i fyfyrwyr a chynnal y prosesau asesu ac arholi o bell.

5. Datganiadau Sicrhau Ansawdd

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd Kim Bradick (SEN2021-022).

NODWYD

1. Mae'r fframwaith Sicrhau Ansawdd i Gymru yn rhoi mwy o bwyslais ar swyddogaeth cyrff llywodraethu ar gyfer darparu sicrwydd ynglŷn â materion ansawdd a safonau. Rhaid i Gyngor y Brifysgol felly gytuno ar Ddatganiadau Blynyddol Sicrhau Ansawdd a'u gyflwyno i'r Cyngor Cyllido ym mis Rhagfyr 2020.
2. Diben adroddiad y Dirprwy Gofrestrydd oedd rhoi'r dystiolaeth addas i Gyngor y Brifysgol fel y gallai gadarnhau wrth y Cyngor Cyllido ei fod yn fodlon bod y Brifysgol wedi cyflawni, a'i bod yn dal i gyflawni, ei rhwymedigaethau yng nghyswllt cyfres o ddatganiadau yn ymwneud â sicrhau ansawdd.
3. Cafodd yr aelodau eu hatgoffa er bod archwiliad i brosesau sicrhau ansawdd yn cael eu cynnal yn ystod cylch pwyllgorau'r hydref, bod sicrhau a gwella dysg ac addysgu yn mynd yn ei flaen trwy gydol y flwyddyn academaidd ac nad yw'n gyfyngedig i brosesau blynyddol.

PENDERFYNWYD

4. Argymhell y dylai'r Cyngor gadarnhau'r Datganiadau Sicrhau Ansawdd (**GWEITHREDU: Ysgrifennydd y Brifysgol**).

6. Newid dyddiad dechrau ym mis Medi 2021

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd Kim Bradick (SEN2021-023).

NODWYD

1. Yn dilyn y datganiad y bydd canlyniadau Safon Uwch yn cael eu rhyddhau wythnos yn ddiweddarach yn 2021, roedd y Brifysgol wedi adolygu dyddiad arfaethedig dechrau'r flwyddyn academaidd ym mis Medi 2021. Bwriedir gohirio dechrau'r tymor am wythnos er mwyn gallu cwblhau'r prosesau perthnasol mewn pryd.
- 2 Er bod aelodau'r Senedd yn gyffredinol yn gefnogol i'r cynnig, roedd ganddynt safbwyntiau gwahanol ynglŷn â thocio wythnos oddi ar weddill blwyddyn academaidd 2021-22 fel y gellid cynnal y graddio yn ôl yr arfer yn yr wythnos cyn y Sioe Amaethyddol yn 2022.
3. Cyflwynwyd tri opsiwn yn yr adroddiad, a chawsant eu trafod gan yr aelodau. Cydnabuwyd y byddai gan bob opsiwn oblygiadau i amrywiol adrannau. Ond, barnwyd na fyddai cydweithwyr yn ffafrio colli wythnos o wyliau'r Nadolig na'r Pasg.

PENDERFYNWYD

4. Y dylid newid dyddiadau blwyddyn academaidd 2021-22 yn unol ag opsiwn 3 yn adroddiad y Dirprwy Gofrestrydd (**GWEITHREDU**: Y Dirprwy Gofrestrydd Kim Bradick).

20. ADRODDIAD O'R BWRDD MARCHNATA A DENU MYFYRWYR

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd Sarah Whitehead (SEN2021-025).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r prif eitemau a drafodwyd yng nghyfarfod y Bwrdd Marchnata a Denu Myfyrwyr ar 21 Hydref 2020. Trafodwyd yr adroddiad gan aelodau'r Senedd.
2. [Cylch Gorchwyl y Bwrdd Marchnata a Denu Myfyrwyr](#)

NODWYD

1. Yn ystod cyfarfod y Bwrdd Marchnata a Denu Myfyrwyr roedd yr aelodau wedi argymhell y dylai'r Senedd newid aelodaeth y Bwrdd. Roedd y diwygiadau arfaethedig wedi eu nodi yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD

2. Cymeradwyo'r diwygiadau a gynigiwyd i Gylch Gorchwyl y Bwrdd Marchnata a Denu Myfyrwyr (**GWEITHREDU**: Y Dirprwy Gofrestrydd Sarah Whitehead).

21. ADRODDIAD O'R PWYLLGOR YMCHWIL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Tîm Effaith Ymchwil (SEN2021-026).

NODWYD

Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r prif eitemau a drafodwyd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Ymchwil ar 29 Medi 2020. Trafodwyd yr adroddiad gan aelodau'r Senedd.

22. PWYLLGOR MOESEG YMCHWIL Y BRIFYSGOL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN2021-027).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r prif eitemau a drafodwyd yn ystod cyfarfod Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol ar 20 Hydref 2020. Trafodwyd yr adroddiad gan aelodau'r Senedd.
2. Datganiad Blynyddol Uniondeb Ymchwil 2019-20

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Swyddog Moeseg ac Uniondeb Ymchwil, yn ymgorffori drafft Datganiad Blynyddol Uniondeb Ymchwil 2019–20 (SEN2021-028).

NODWYD

1. I gydymffurfio â'r Concordat i Gefnogi Uniondeb Ymchwil, rhaid i'r Brifysgol baratoi Datganiad Blynyddol cryno ar Uniondeb Ymchwil a chael cymeradwyaeth iddo gan y corff llywodraethu academiaidd cyn ei gyhoeddi ar wefan y sefydliad.
2. Roedd y Datganiad Blynyddol yn amlinellu'r camau a gymerwyd, y gweithgareddau a gyflawnwyd a'r fframwaith sydd yn ei le i feithrin diwylliant o uniondeb ymchwil. Roedd hefyd yn cadarnhau na wnaed archwiliadau i gamymddygiad mewn gwaith ymchwil yn y cyfnod dan sylw.

PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo drafft Datganiad Blynyddol Uniondeb Ymchwil 2019/20 ar gyfer ei gyhoeddi (**GWEITHREDU**: Rheolwr Datblygu Ymchwil).
3. Adroddiad Blynyddol ar Foeseg Ymchwil

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Swyddog Uniondeb a Moeseg Ymchwil (SEN2021-029).

NODWYD

1. Adroddiad Blynyddol ar gyfer blwyddyn academiaidd 2019-20 oedd hwn, ac roedd yn rhoi diweddariad am y gwaith a gyflawnwyd gan y Panel Moeseg Ymchwil yn y cyfnod hwnnw. Roedd hefyd yn rhoi crynodeb o holl weithgareddau'r flwyddyn yn gysylltiedig â moeseg.
2. Cafodd copi o'r adroddiad ei ystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio ar 12 Tachwedd 2020.

23. EITEMAU ER GWYBODAETH

DERBYNIWYD

Derbyniodd aelodau adroddiadau ar y canlynol er gwybodaeth:

1. Adroddiad o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (SEN2021-030);
2. Grantiau Ymchwil (SEN2021-031); a
3. Crynodeb o'r Gofrestr Risg Corfforaethol (SEN2021-032).

NODWYD

4. Cynnwys yr adroddiadau a gyflwynwyd er gwybodaeth.

24. COFNODION PWYLLGORAU

DERBYNIWYD

Adroddiad yn cynnwys y canlynol (SEN2021-033):

1. Y Bwrdd Academaidd (11 Tachwedd 2020);
2. Y Bwrdd Marchnata a Denu Myfyrwyr (21 Hydref 2020);
3. Pwyllgor Ymchwil (29 Medi 2020);
4. Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol (20 Hydref 2020); a
5. Y Cyngor (22 Medi 2020).

NODWYD

6. Yr adroddiadau a dderbyniwyd o'r pwyllgorau.